# Y Pwyllgor Menter a Dysgu

## Cofnodion (EL(3)-08-07)

**Dyddiad: 24 Hydref 2007**
**Amser: 9.00am - 11.15am**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd**

### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol

Gareth Jones, Aberconwy
Alun Cairns, Gorllewin De Cymru
Christine Chapman, Cwm Cynon
Jeff Cuthbert, Caerffili
Huw Lewis, Merthyr Tudful a Rhymni
David Melding, Canol De Cymru
Sandy Mewies, Delyn
Janet Ryder, Gogledd Cymru
Kirsty Williams, Brycheiniog a Sir Faesyfed

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

Dr Kathryn Jenkins, Clerc
Daniel Collier, Dirprwy Glerc

### Arbenigwyr Pwyllgor

Alys Thomas, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau
Graham Winter, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau

### Cwnsler Cyfreithiol

Gwyn Griffiths, Cwnsler Cyfreithiol

### Eraill yn Bresennol

Stephen Wolstenholme, Rheolwr Strategaeth Rheilffyrdd, Yr Adran Drafnidiaeth.
David Sexton, Rheolwr Datblygu Dynodi Gwasanaeth Uwch, Yr Adran Drafnidiaeth.
Robin J Shaw, Prif Weithredwr, Trafnidiaeth Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru

### 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

### 2: Ymateb i ymgynghoriad yr Adran Drafnidiaeth ar Ddefnyddio Gwregysau Diogelwch a Seddi Diogel i Blant ar Fysiau a Choetsys

#### Papur: EL(3) 08-07 - Papur 1, Atodiad

2.1 Rhoddodd y Pwyllgor sylw ar ei ymateb drafft i ymgynghoriad yr Adran Drafnidiaeth ar Ddefnyddio Gwregysau Diogelwch a Seddi Diogel i Blant ar Fysiau a Choetsys a chytunodd y dylid ystyried ymateb terfynol mewn cyfarfod yn y dyfodol, gan gymryd sylwadau ysgrifenedig sydd i'w derbyn gan yr aelodau i ystyriaeth.

### 3: Adroddiad drafft o graffu ar Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) cyn y broses ddeddfu

#### Papur: EL(3) 08-07 - Papur 2, Atodiad

3.1 Byddai'r Pwyllgor yn ystyried rhagor o wybodaeth y gofynnwyd amdano gan Lywodraeth Cynulliad Cymru cyn trafod adroddiad terfynol ar ymchwiliad craffu ar Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) cyn y broses ddeddfu.

### 4: Tystiolaeth i'r Pwyllgor ar gynllunio ar gyfer y gwasanaethau rheilffordd a ddarperir yng Nghymru yn y dyfodol

#### Papur: EL(3) 08-07 - Papur 3

4.1 Croesawodd y Pwyllgor Stephen Wolstenholme, Rheolwr Strategaeth Rheilffyrdd, Yr Adran Drafnidiaeth; David Sexton, Rheolwr Datblygu Dynodi Gwasanaeth Uwch, Yr Adran Drafnidiaeth; a Robin J Shaw, Prif Weithredwr, Trafnidiaeth Cymru, Llywodraeth Cynulliad

Cymru.

4.2 Bu'r Pwyllgor yn craffu ar waith y tystion.

4.3 Gofynnodd yr Aelodau am gopïau o Adroddiad Blynyddol Strategol Network Rail, a gaiff ei gyhoeddi ar 1 Tachwedd 2007.

### Papur i'w nodi:

**Ymateb CyDAG i ymgynghoriad Llywodraeth Cynulliad Cymru ar y Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru)**

**Papur: EL(3) 08-07 - Papur 4**

Nododd y Pwyllgor ymateb CyDAG i ymgynghoriad Llywodraeth Cynulliad Cymru ar y Mesur drafft. .

### Cofnodion y cyfarfod blaenorol

### Papur: EL(3) 07-07 - Cofnodion

Cadarnhaodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Hydref.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**
**Hydref 2007**